

RHAGLEN

DATGAN BUDDIANNAU

Atgoffir yr Aelodau'n barchus o'r angen i ddatgan buddiannau personol a/neu ragfarnus mewn unrhyw fusnes i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

Caplan y Maer i ddechrau'r cyfarfod trwy arwain pawb sy'n bresennol mewn Gweddi.

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau a gyflwynwyd ar ran yr aelodau am absenoldeb.

2. COFNODION

Cadarnhau fel cofnod cywir gofnodion cyfarfodydd canlynol y Cyngor a'i Bwyllgorau (copïau'n amgaeëdig):

Y Cyngor	-	19eg Mehefin 2019	-	Rhifau Cofnod	18-32
Pwyllgor Cynllunio	-	19eg Mehefin 2019	-	Rhifau Cofnod	6-9

3. ADRODDIAD Y MAER

Derbyn manylion y digwyddiadau a fynychwyd gan y Maer a'r Dirprwy Faer dros y mis diwethaf (copi'n amgaeëdig).

4. CYFLWYNO RHODD I'R CYNGOR TREF

Y Maer i ddweud ei bod wedi cael rhodd ar ran pobl y Rhyl gan Brifysgol Goldsmith yn Llundain ar ôl ymweliad gan fyfyrwyr gradd â'r dref.

5. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU - MEHEFIN 2019

Derbyn adroddiad Clerc y Dref (copi'n amgaeëdig).

6. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY

Derbyn a phenderfynu ar adroddiad Clerc y Dref (copi'n amgaeëdig).

7. YMGYNGHORIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – GORCHYMYN GWAHARDD AROS: GRANGE ROAD A PARK DRIVE, Y RHYL

Derbyn manylion y gorchymyn traffig arfaethedig uchod a phenderfynu ar ymateb y Cyngor Tref (copi'n amgaeëdig).

8. **YMGYNGHORIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – GORCHYMYN GWAHARDD AROS - CHURTON ROAD, BRIGHTON ROAD, THE GROVE A HIGHFIELD PARK, Y RHYL**

Derbyn manylion y gorchymyn traffig arfaethedig uchod a phenderfynu ar ymateb y Cyngor Tref (copi'n amgaeëdig).

9. **YMGYNGHORIAD: COMISIWN DEMOCRATIAETH LEOL A FFINIAU AR GYFER CYMRU – AROLWG O DREFNIADAU ETHOLIADOL AR GYFER SIR DDINBYCH**

Ymhellach i gofnod rhif 74 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15fed Tachwedd 2017, derbyn argymhellion terfynol y Comisiwn sydd wedi eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w hystyried (copïau o'r tudalennau perthnasol yn ymwneud â wardiau'r Rhyl yn amgaeëdig).

[DS: Mae'r adroddiad yn argymhell bod ward Cyngor Sir De-ddwyrain y Rhyl (tri aelod) yn cael ei rhannu'n ddwy ward (De-ddwyrain y Rhyl a Rhyl Trellewelyn) y ddwy i'w cynrychioli gan ddau aelod i'w hethol]

Mae'r adroddiad llawn i'w weld yn:

<https://ldbc.gov.wales/reviews/06-19/denbighshire-final-recommendations>

10. **YMGYNGHORIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – AROLWG O ORSAFOEDD PLEIDLEISIO**

I dderbyn y ddogfen ymgynghori uchod (copi'n amgaeëdig) yn ceisio arolygu priodoldeb manau pleidleisio presennol yn y Rhyl a phenderfynu ar ymateb y cyngor.

11. **ER GWYBODAETH: CYNGOR SIR DDINBYCH – CYNLLUN DATBLYGU LLEOL SIR DDINBYCH 2018 – 2033: YMGYNGHORIAD AR Y STRATEGAETH DDRAFFT A FFEFRIR**

Derbyn manylion y broses strategaeth uchod (copi'n amgaeëdig).

12. **EITEM GAN AELOD**

Y Cynghorydd J. Ball – Gofyn bod y Cyngor yn ystyried y posibilrwydd o gyflwyno ffrydio byw a recordio cyfarfodydd Cyngor Tref y Rhyl yn debyg i Gyngor Sir Ddinbych.

13. **EITEMAU ER GWYBODAETH**

Derbyn gwybodaeth gan yr Aelodau ar faterion brys sy'n codi, manylion y rhain a gytunwyd gyda'r Cadeirydd cyn i'r cyfarfod ddechrau.

14. **HOLI AC ATEB**

Derbyn cwestiynau gan aelodau'r cyhoedd sy'n bresennol.

15. EGWYL MIS AWST – DIRPRWYO PWERAU GWEITHREDOL

Cadarnhau trefniadau ar gyfer dirprwyo Pwerau Gweithredol i Glerc y Dref mewn ymgynghoriad gyda'r Aelodau canlynol yn ystod y cyfnod 18fed Gorffennaf 2019 hyd at 4ydd Medi 2019:

Materion Dinesig	-	Maer a/neu'r Dirprwy Faer
Materion Cynllunio	-	Cadeirydd a/neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio
Eitemau Pwyllgor CSG	-	Cadeirydd a/neu Is-gadeirydd y Pwyllgor CSG
Holl Faterion Eraill	-	Cadeirydd a/neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol

16. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Argymhellir, dan Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitemau busnes canlynol, oherwydd cyfrinachedd.

17. GWYBODAETH: COFNODION CFRINACHOL

Cydnabod y cofnodion cyfrinachol canlynol (copïau'n amgaeëdig) er gwybodaeth yn unig:

Pwyllgor CSG	-	8fed Ebrill 2019	-	Rhifau Cofnod:	74 -81
Pwyllgor CSG	-	13eg Mai 2019	-	Rhifau Cofnod	82 -87

18. PWYLLGOR CSG – GWARIANT GWASANAETHAU A GOMISINWYD

Derbyn adroddiad llafar gan Glerc y Dref yn gofyn am gymeradwyo argymhellion gan y Pwyllgor CSG (08.07.2019) i ddarparu cyllid ar gyfer y mentrau canlynol ar gyfer 2019/20:

- (i) Homestart Sir Ddinbych
- (ii) CAB Sir Ddinbych

19. TERFYNU'R CYFARFOD

Y Maer i ddirwyn y cyfarfod i ben.